**Rebecca Evans AS/MS**
**Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd**
**Minister for Finance and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: MA/RE/4406/20

Elin Jones AS
Llywydd
Senedd Cymru

21 Rhagfyr 2020

Annwyl Llywydd,

**Rheoliadau'r Dreth Trafodiadau Tir (Bandiau Trethi a Chyfraddau Trethi) (Cymru) (Diwygio) 2020**

Heddiw, rwyf wedi gwneud Rheoliadau'r Dreth Trafodiadau Tir (Bandiau Trethi a Chyfraddau Trethi) (Cymru) (Diwygio) 2020 o dan adrannau 24(1) a 78(1) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017 a ddaw i rym ar 22 Rhagfyr 2020. Amgaeaf gopi o'r offeryn statudol a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig yr wyf yn bwriadu eu gosod pan fydd yr offeryn statudol wedi'i gofrestru yn nes ymlaen y prynhawn yma.

Yn unol â'r weithdrefn a nodir yn adran 25(2) o Ddeddf Treth Trafodiadau Tir a Gwrthweithio Osgoi Trethi Datganoledig (Cymru) 2017, rhaid i'r offeryn hwn gael ei gymeradwyo gan y Senedd erbyn dydd Llun 8 Chwefror 2021 er mwyn iddo gael effaith o hyd. Yn yr amgylchiadau hyn, rwyf yn deall bod Rheol Sefydlog 21.4A yn berthnasol ac y caiff y Pwyllgor Busnes sefydlu a chyhoeddi amserlen ar gyfer adroddiad y pwyllgor neu'r pwyllgorau perthnasol. Efallai y bydd o gymorth gwybod fy mod yn bwriadu cynnal y ddadl ar gyfer yr eitem hon o is-ddeddfwriaeth ddydd Mawrth 2 Chwefror 2021.

Rwyf yn anfon copi o'r llythyr hwn at Mick Antoniw AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad; Llŷr Gruffydd AS, Cadeirydd y Pwyllgor Cyllid; Siwan Davies, Cyfarwyddwr Busnes y Senedd; Sian Wilkins, Pennaeth Gwasanaethau'r Siambr a Phwyllgorau a Julian Luke, Pennaeth Gwasanaeth y Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth.

Yn gywir,

Rebecca Evans

**Rebecca Evans AS**
Y Gweinidog Cyllid a'r Trefnydd
Minister for Finance and Trefnydd

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.